# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Newidiadau i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2020** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Daniel Ricketts** |
| **Adran:** | **Is-adran Amaethyddiaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Victoria Jones** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Lesley Griffiths, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **20 Ebrill 2022** |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Yn "Symud Cymru Ymlaen" mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pum maes allweddol lle gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl Cymru. Mae'r cynnig presennol yn cefnogi creu Cymru ffyniannus, ddiogel, unedig a chysylltiedig. Mae nodau penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n berthnasol yn cynnwys gwneud Cymru'n ffyniannus – datblygu economi wledig sy'n creu cyfoeth ac sy'n darparu cyfle cyfartal a gwlad sy'n wydn yn ecolegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. At hynny, bydd y gwaith yn cefnogi cymunedau cydlynol sydd â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus.

Nod y polisi hwn yw cyflwyno Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022 ["Gorchymyn 2022"] sy'n rhagnodi isafswm cyflog fesul awr ar gyfer gweithwyr amaethyddol a thelerau, amodau a buddion eraill. Gwneir y Gorchymyn yn unol â phwerau yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ["Deddf 2014"].

Mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel") yn gorff cynghori annibynnol a sefydlwyd o dan Adran 2(1) o Ddeddf 2014 gan Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 ("Gorchymyn y Panel") ar 1 Ebrill 2016. Mae Gorchymyn y Panel yn pennu mai saith fydd nifer aelodau'r Panel:

- Dau gynrychiolydd o Unite yr Undeb;
- Un cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru;
- Un cynrychiolydd o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; a
- Tri aelod annibynnol – gan gynnwys Cadeirydd annibynnol.

Dewisir yr aelodau annibynnol a'r Cadeirydd drwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus.

Mae erthygl 3(2) o Orchymyn y Panel yn nodi swyddogaethau'r panel. Diben y Panel yw paratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, gan gynnwys adolygu'r holl delerau ac amodau sy'n gymwys i weithwyr amaethyddol, a chefnogi datblygiad eu gyrfa yn y sector. Mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am ymgynghori ar y gorchmynion hynny a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.

Prif rôl aelodau Annibynnol y Panel yw cynnig eu barn arbenigol mewn trafodaethau ar faterion allweddol a rhoi cyngor ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Rôl yr aelodau cynrychiadol yw defnyddio’u harbenigedd i gynrychioli buddiannau eu haelodau wrth i’r Panel drafod materion allweddol a rhoi cyngor ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Un o brif gyfrifoldebau holl aelodau'r Panel yw helpu i sicrhau bod Gorchmynion drafft teg a rhesymol yn cael eu cyflwyno ar faterion sy'n ymwneud â lefelau tâl isaf a thelerau ac amodau perthnasol ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru fel y'u diffinnir yn Neddf y Sector Amaethyddiaeth (Cymru) 2014.

Cyfarfu'r Panel i benderfynu a ddylid cynnig newidiadau i Orchymyn Cyflogau 2020 ar 7 a 22 Medi 2020. Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu ar y newidiadau a gynigiwyd rhwng 26 Hydref a 20 Tachwedd 2020. E-bostiwyd y cynigion at restr hir o randdeiliaid, ac roeddent ar gael ar wefan y Panel. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

Cynhaliwyd ail ymgynghoriad wedi'i dargedu rhwng 22 Hydref a 19 Tachwedd 2021 yn dilyn newidiadau i'r cynigion drafft. Cafodd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau'r ffermwyr, UNITE a cholegau amaethyddol eu cynnwys . Anogwyd aelodau'r Panel i rannu'r cynigion ledled eu rhwydweithiau.

Cafwyd dau ymateb i'r ddogfen ymgynghori gyntaf.  Cafwyd y naill gan Unite yr Undeb, y mae dau gynrychiolydd ohono ar y Panel, a'r llall gan Janet Finch-Saunders AS - Gweinidog yr Wrthblaid dros Newid yn yr Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig. Cyfarfu'r Panel i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cafwyd tri ymateb i'r ail ymgynghoriad. Cafwyd un ymateb gan Hywel Davies a chafwyd un arall gan Duncan Hodgson. Roedd y trydydd am aros yn ddienw. Nid oedd yr un ohonynt yn erbyn y newid a gynigiwyd i'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol. Ailgyflwynodd y Panel ei gynigion i Lywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr 2021.

Bydd y cyfraddau tâl isaf a gynigir gan y Panel yng Ngorchymyn 2022 yn disodli'r rheini yng Ngorchymyn 2020. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob gweithiwr amaethyddol yn cael ei amddiffyn ac yn cael cyflog teg sy'n adlewyrchu natur ei waith a'i gyfrifoldebau. Bydd darpariaeth yng Ngorchymyn 2022 yn parhau i wobrwyo cymwysterau a/neu brofiad mewn amaethyddiaeth sy'n cynnwys gwahaniaethau cyflog yn seiliedig ar lefel y sgiliau sydd eu hangen ar bob gradd. Bydd hyn yn gymhelliant i bobl yn y sector i ddatblygu'u sgiliau.

Mae'r strwythur graddio yng Ngorchymyn 2022 wedi'i foderneiddio a'i symleiddio i sicrhau ei fod yn berthnasol i'r diwydiant amaeth yng Nghymru ac yn addas i ddiben cyflogwyr a gweithwyr amaethyddol fel ei gilydd. Bydd y strwythur newydd yn ei gwneud yn haws diffinio gradd briodol gweithiwr amaethyddol a bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd a photensial i weithwyr amaethyddol ddatblygu eu sgiliau o fewn y sector amaethyddol yng Nghymru.

Mae'r rhestr ragnodol o ddyfarniadau a thystysgrifau cymhwysedd sy'n ofynnol yn ôl Atodlenni 1, 2 a 3 o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2020 cyfredol wedi'i dileu. Ystyrir bod y rhestr cymwysterau hon yn hen ffasiwn ac mae'r strwythur graddio newydd yn disodli'r cymwysterau hynny â system symlach sy'n seiliedig ar gymwysterau perthnasol Fframwaith Prentisiaethau Llywodraeth Cymru (neu gymhwyster cyfatebol) ynghyd â phrofiad gweithwyr fel llwybrau amgen drwy'r strwythur graddio.

Bydd Gorchymyn 2022 yn darparu, os bydd cyfradd tâl isaf gweithiwr amaethyddol yn gostwng am iddo fynd i radd is neu gyfradd tâl isaf is o dan y strwythur graddio newydd a gynigir, caiff ei gyflog ei rewi ar ei gyfradd tâl bresennol (h.y. y gyfradd tâl isaf yn ei radd o dan Orchymyn 2020) tan y bydd cyfradd tâl isaf ei radd o dan y strwythur graddio newydd yn cyrraedd ei gyfradd tâl bresennol neu'n rhagori arni.
Mae Gorchymyn 2022 yn cael ei roi ar waith yng nghyd-destun agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, i helpu economïau gwledig i dyfu a ffynnu a chyfrannu at economi ehangach Cymru.

Dylai rhai o'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddiaeth neu'n ymuno ag ef a'u teuluoedd elwa o'r darpariaethau ar isafswm cyflog a hyfforddiant a datblygu sgiliau i ddatblygu eu gyrfaoedd. Mae manteision ehangach hefyd i economi Cymru ac i’n cymunedau o gael lefelau tâl a lwfansau teg a gweithlu mwy medrus.

Gan fod y rheoliadau'n is-ddeddfwriaeth, mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod ynghlwm â datblygu'r cynnig?

Nod y polisi hwn yw cyflwyno Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022 ["Gorchymyn 2022"] sy'n rhagnodi cyfraddau tâl isaf fesul awr ar gyfer gweithwyr amaethyddol a thelerau, amodau a buddion eraill. Gwneir y Gorchymyn yn unol â phwerau yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ["Deddf 2014"].

Mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel") yn gorff cynghori annibynnol a sefydlwyd o dan adran 2(1) o Ddeddf 2014 gan Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 ("Gorchymyn y Panel") ar 1 Ebrill 2016.

Yn ôl Gorchymyn y Panel, bydd gan y Panel saith o aelodau:

- Dau gynrychiolydd o Unite yr Undeb;
- Un cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru;
- Un cynrychiolydd o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; a
- Tri aelod annibynnol – gan gynnwys Cadeirydd annibynnol.

Dewisir yr aelodau annibynnol a'r Cadeirydd drwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r aelodau annibynnol yn cynnig eu barn arbenigol mewn trafodaethau ar faterion allweddol ac yn rhoi cyngor ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Rôl yr aelodau cynrychiadol yw defnyddio'u harbenigedd i gynrychioli buddiannau eu haelodau wrth i'r Panel drafod materion allweddol a rhoi cyngor ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Yn gyffredinol, un o brif ddyletswyddau aelodau'r Panel yw sicrhau bod Gorchmynion drafft teg a rhesymol yn cael eu cyflwyno.

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad 4 wythnos a gwahoddwyd nifer o bobl â nodweddion gwarchodedig i ymateb. Fe'i cyhoeddwyd hefyd ar wefan y Panel Cynghori Amaethyddol. Amgaeir rhestr lawn o'r ymgyngoreion.

Cafodd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau'r ffermwyr, UNITE a cholegau amaethyddol eu cynnwys. Anogwyd aelodau'r Panel i rannu'r cynigion ledled eu rhwydweithiau . Roedd yr Ymgynghoriad ar gael ar wefan Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dylai rhai o'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddiaeth neu'n ymuno ag ef a'u teuluoedd elwa o'r darpariaethau ar isafswm cyflog a hyfforddiant a datblygu sgiliau i ddatblygu eu gyrfaoedd. Mae manteision ehangach hefyd i economi Cymru ac i'n cymunedau o gael lefelau tâl a lwfansau teg a gweithlu mwy medrus. Ni fydd Gorchymyn 2022 yn effeithio'n benodol ar blant, dim ond fel rhan o'r manteision ehangach a nodir uchod.

Nid oes data ar gael ar nifer y plant sy'n gweithio ym myd amaeth yng Nghymru. Canfu arolwg yn 2009 gan y BBC y cymerodd 101 o'r 175 o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ran ynddo fod tua 30,000 o weithwyr ifanc rhwng 13 ac 16 oed mewn rhyw fath o gyflogaeth. Dim ond cyfran fach o'r rheini fyddai'n cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth. Nid oes tystiolaeth bod y sefyllfa hon wedi newid.

Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod effaith anghymesur neu wahaniaethu gan fod darpariaethau'r Ddeddf yn gymwys i bob gweithiwr amaethyddol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen casglu tystiolaeth fwy sylweddol er mwyn asesu'r sefyllfa'n llawn. Cynhaliwyd ymarfer casglu data sylfaenol. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o ganlyniadau rydym yn edrych ar ffyrdd ychwanegol o lywio'r Gorchymyn ar gyfer 2022 ac wedi hynny.

Mae manteision ehangach i economi Cymru o dalu tâl a lwfansau teg ac o gael gweithlu medrus iawn. Mae'r Panel a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag undebau'r ffermwyr a chynrychiolwyr gweithwyr gyda'r bwriad o hyrwyddo amaethyddiaeth fel llwybr cyflogaeth hyfyw i bawb, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. Wrth symud ymlaen rydym wedi nodi'r angen i gasglu a dadansoddi data ac ymchwil er mwyn deall yn well effaith ein polisi ar grwpiau gwarchodedig.

Nodwyd hefyd yr angen i wneud aelodaeth ein Panel Cynghori yn fwy amrywiol ac yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth y mae'n ei chynrychioli. Cynhaliwyd proses Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer yr aelodau Annibynnol a dechreuodd Cadeirydd ac Aelod Annibynnol newydd ar 1 Ebrill 2021.

Bydd cynhyrchu'r Gorchymyn yn cefnogi cymunedau gwledig lle mae'r Gymraeg yn aml yn amlwg. Drwy hynny, bydd y Gorchymyn yn helpu i gynnal cymunedau Cymraeg cydlynol a ffyniannus yn yr ardaloedd lle mai amaethyddiaeth yw un o'r opsiynau gorau ar gyfer datblygu gyrfa. Mae effaith economaidd cyfraddau tâl isaf teg a'r gydnabyddiaeth a roddir gan y strwythur graddio i'r sgiliau sydd eu hangen yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy.

Mae'r Gorchymyn yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i gynaliadwyedd y Gymraeg yn ei chadarnleoedd (e.e. Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy a Gwynedd) sydd gan fwyaf yn wledig ac yn amaethyddol eu natur. Mae cynnal cymunedau gwledig yn golygu cynnal a chefnogi bywiogrwydd y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn. Ceir effaith glir bositif ar yr iaith, felly mae yna gysylltiad annatod rhwng yr economi, y gymuned a'r iaith. Mae dros 70% o weithwyr amaethyddol y siroedd a nodir uchod yn siarad Cymraeg ac felly byddent yn elwa'n uniongyrchol ar y strwythur graddio newydd.

O ran y Gymraeg, dim ond effeithiau cadarnhaol sydd wedi'u gweld.

Mae holl waith y Panel - gorfodi Deddf 2014, cyflwyno Gorchmynion, ymgynghoriadau ac arweiniad - yn cael ei wneud yn ddwyieithog. Cynigir y Gymraeg mewn ffordd ragweithiol fel y cyfrwng cyfathrebu mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae cyhoeddiadau a negeseuon i'r cyhoedd i gyd wastad yn ddwyieithog.

Mae cryfhau'r hyn y gall gwaith amaethyddol yng Nghymru ei gynnig yn helpu hefyd i gadw gweithwyr yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, lle mai ffermio yw un o'r prif ffynonellau gwaith.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynnig presennol yn cefnogi creu Cymru ffyniannus, ddiogel, unedig a chysylltiedig. Mae nodau penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n berthnasol yn cynnwys gwneud Cymru'n ffyniannus – datblygu economi wledig sy'n creu cyfoeth ac sy'n darparu cyfle cyfartal a gwlad sy'n wydn yn ecolegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. At hynny, bydd y gwaith yn cefnogi cymunedau cydlynol sydd â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus.

Mae sicrhau cyflogau teg i weithwyr amaethyddol a chefnogi cymunedau gwledig yn hanfodol bwysig yng nghyd-destun agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Mae nodau penodol yr agenda yn cynnwys codi incwm aelwydydd, gwella sylfaen sgiliau pobl ifanc a helpu teuluoedd mewn cymunedau tlotach. Mae darparu cyflogau teg i weithwyr amaethyddol yn gallu cynnal teuluoedd mewn ardaloedd gwledig drwy gynyddu incwm eu haelwyd. Bydd y darpariaethau ar gyfer prentisiaid a hyfforddiant o fewn y Gorchymyn newydd yn helpu pobl ifanc i ennill sgiliau a chymwysterau, a all wella eu rhagolygon am waith yn y dyfodol.

Bydd Gorchymyn 2022 yn darparu, os bydd cyfradd tâl isaf gweithiwr amaethyddol yn gostwng am iddo fynd i radd is neu gyfradd tâl isaf is o dan y strwythur graddio newydd a gynigir, caiff ei gyflog ei rewi ar ei gyfradd tâl bresennol (h.y. y gyfradd tâl isaf yn ei radd o dan Orchymyn 2020) tan y bydd cyfradd tâl isaf ei radd o dan y strwythur graddio newydd yn cyrraedd ei gyfradd tâl bresennol neu'n rhagori arni.

Mae gweithdrefnau gorfodi ar waith hefyd i sicrhau y gellir cymryd camau yn erbyn unrhyw gyflogwr nad yw'n cadw at y cyfraddau tâl isaf neu delerau ac amodau'r Gorchymyn.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Cynhaliwyd ymarfer casglu data sylfaenol. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o ganlyniadau rydym yn edrych ar ffyrdd ychwanegol o lywio'r Gorchymyn ar gyfer 2022 ac wedi hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith Gorchymyn 2022, ac unrhyw Orchmynion dilynol a gynigir gan y Panel Cynghori Amaethyddol, ar y sector amaethyddol gan gynnwys gweithwyr ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal deialog â rhanddeiliaid allweddol ac yn casglu adborth ar effaith y ddeddfwriaeth newydd. Bydd llinell gymorth yn parhau i fod ar gael i ymateb i ymholiadau sy'n ymwneud â Gorchymyn 2022. Bydd yr holl wybodaeth hon yn helpu i asesu effeithiolrwydd y Gorchymyn ac yn llywio unrhyw Orchymyn yn y dyfodol.